

## Delbert

Mae Delbert yn perthyn i gymuned ynys Bayas yn ardal lloilo yn y Pilipinas. Ef yw'r person sy'n gweithio'r sustem ynni haul ar yr ynys. Gan iddo astudio technoleg trydanol yn NIPSCE (Coleg Polytechnic Gwladol Estancia, Gogledd lloilo) gofynnwyd iddo redeg y ganolfan bweru sy'n darparu ynni haul i bweru batris y cychod pysgota ar yr ynys. Mae o hefyd yn bysgotwr rhan amser ac yn aelod o Gymdeithas Pysgotwyr Bayas Maliogliog (BAMFSA).

Wedi chwalfa Corwynt Hayian ym mis Tachwedd 2013 adeiladodd ICODE, partner Cymorth Cristnogol, ganolfan bweru ar gyfer cymuned Bayas.

Mae'r ganolfan ynni'n darparu ynni haul ar gyfer y pysgotwyr i bweru batris eu cychod – ac yn ogystal yn cynnig lle i bobl bweru eu ffonau symudol a'u radio.

Cyn iddynt gael yr adnodd lleol roedd y pysgotwyr yn gorfod teithio i'r tir mawr i bweru eu batris ac yn talu'n ddrud i wneud hynny.

Mae'r ganolfan ynni'n creu incwm i bobl yr ynys gan fod pawb yn talu swm bychan i ddefnyddio'r cyfleusterau. Yn ogystal â'r ganolfan ynni rhoddodd ICODE gwch i'r gymuned Bayas i arolygu'r arfordir, cwch pysgota i gynnal



eu bywoliaeth a gorsaf sy'n arnofio lle mae'r gwylwyr yn cadw llygaid agored am bysgotwyr anghyfreithlon.

Mae Delbert hefyd yn rhedeg caffî rhyngrwyd ar yr ynys lle mae'r plant yn gallu defnyddio cyfrifiaduron a llungopiwr i wneud eu gwaith ac ef yw'r asiant COMSCA. (y clwb cynilo cymunedol)

Dywedodd, "Mae newid mawr wedi bod yma i bobl Bayas. Mae pawb yn deall pa mor bwysig yw ynni'r haul. Mae nhw wedi newid eu cyflenwad trydan ac yn prynu nwyddau sy'n gallu defnyddio ynni haul. Mae'n boblogaidd iawn achos mae'n llawer rhatach ac nid yw'n peri niwed i'r amgylchedd. Mae'r ynni haul wedi bod yn gymorth mawr i'r pysgotwyr wella eu bywoliaeth."

Anna Jane Evans

## "Gwybod pris popeth a gwerth dim byd!"

Ydy, mae'r byd yn mynd o'i go!

Mae bron pawb yn y byd yn y pŵl piniwn ansyddogol a wnaed ymhlith cyfeillion y Golygydd yn credu bod y byd yn mynd o'i go!

### Caethwasiaeth? Heddiw?

Yn ôl Amnest Rhyngwladol, a nifer o adroddiadau yn y Guardian a'r Independent, mae marchnadoedd sy'n gwerthu caethweision yn ffynnu yn Libya. Unwaith eto mae merched ifanc, gwragedd a phlant yn cael eu hecsploetio. Unwaith eto mae ffoaduriaid a'r anghenus yn "werthfawr" i'r bobl sy'n eu masnachu – ond am bris. Adroddwyd hanes yn ddiweddar yn y newyddion am ŵr gafodd ei werthu gan un gang am £340 i gang arall. Roedd y perchnogion newydd yn fodlon ei ryddhau os medrai dalu dwywaith y swm y cafodd ei brynu amdano.

Pa obaith o dalu sydd yna i bobl sy'n ennill llai na £1 y dydd?

### A sŵn am ecsploetio.

Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau – y BBC a'r Independent er enghraifft – gwelwyd cynnydd yn y nifer y landlordiaid oedd yn fodlon derbyn



"Dyma haid o locustiaid yn codi... Pan oeddynt wedi gorffen bwyta gwellt y ddaear, dywedais, O Arglwydd Dduw, maddau! Sut y saif Jacob ac yntau mor fychan?"

Amos 7:2-3

ffafrau rhywiol yn lle rhent fel tâl am gael aros mewn fflat neu dŷ.

Mae'r hysbysebion i'w gweld ar wefannau cyhoeddus. Mynegwyd pryder gan nifer o Aelodau Seneddol bod y math yma o hysbysebu, er ei fod yn anghyfreithlon, ar gynnydd.

### Rhyddid neu Ecsploetio?

Ond onid yn ein hymateb i "drefniadau" o'r fath y datgelir dryswch ein gwerthoedd cyfoes?

Ar un llaw clywn leisiau cadarn sy'n mynnu nad oes hawl gan neb i ecsploetio unrhyw un arall. Rhaid diogelu'r bregus. Ond ar y llaw arall dywedir, "Onid oes hawl gan ferched (yn bennaf, yn ôl y ddadl) i fod yn 'weithwyr rhyw' os mai dyna yw eu dewis? Neu osgoi talu rhent ariannol am bris ei chorff os mai dyna yw eu dewis?"

Os yw rhywun o'i gwirfodd yn dewis "gwerthu" eu cyrff mewn modd "masnachol" am swm penodol o arian er mwyn talu eu ffordd a chadw to uwch eu pennau, pa ddrwg all fod yn hyn? Does dim gwahaniaeth ymarferol rhyngddo a chytundeb gyda phlymar neu olchwr ffenestri, meddir.

Yn ôl yr ymresymiad hwn dylid cyfreithloni'r "fasnach ryw" fel ei fod yn cael ei reoleiddio'n agored a phobl sy'n dilyn y fasnach yn cael eu diogelu. Gall gweithwyr wedyn dalu trethi ar eu henillion. Yn union fel pawb arall.

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Amnest Rhyngwladol, y blaid Werdd a'r Democratiaid Rhyddfrydol oll yn arddel agwedd mwy "rhyddfrydig" tuag at y fasnach ryw.

(parhad ar dudalen 2)

# Cawr ymhlith y cewri (parhad)

*Gwelsom yr wythnos diwethaf bod emynau Pantycelyn yn chwilio i ddyfnderoedd profiad, enaid a hyder y Cristion. Gwelsom mai ym mhlethiad esmwyth iaith ac athrawiaeth Feiblaidd gydag iaith lafar Sir Gâr y crëwyd darluniau ffres a byw. Y tro hwn mae'r Dr Eifion Evans yn ein tywys i ystyried pwysigrwydd y seiat ym mhrofiad y Methodistaidd cynnar a chariad Williams tuag at ei bobl.*

Dewch felly yn awr gyda mi i'w gwmi ni yn y seiat profiad.



Manylun o gerddelw Williams yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd

Yr oedd i'r sefydliad hwnnw ddau ddosbarth: un ar gyfer rhai "ar brawf", a'r llall ar gyfer aelodau llawn. Cofier mai'r diben oedd asesu dilysrwydd profes a meithrin profiad. Nid ar chwarae bach yr ymunai unrhyw un oherwydd yr holi manwl a'r drefn ddisgybledig oedd ynddynt. O ran aelodaeth yr oedd ynddynt nifer diogel o ieuencid, a'r mwyafrif yn ferched. Y gamp oedd dod o hyd i holiedyddion addas, aeddfed eu profiad a doeth eu sylwadau. "Fe fedr y cyfryw chwilio allan

walau tywyll, lle mae Satan, a phechod, cnaud a chwant y byd a'i eilunod yn llechu ynddynt."

A'r effaith?

"Mae pobl Dduw yn dyfod o'r fath gymdeithas â hyn fel meddwon o'r gwindy yn llon hyfryd wedi dractio gwin y Nef, wedi eu cysuro, eu hyfforddi a'u hadeiladu."

Nid cyffesgell y Pabyddion oeddent, ond canolfan iechyd i brofi dadansoddiad meddyg a chymryd y presgripsiwn ysgrythurol oedd yn berthnasol i'w cyflwr.

Fel y dywed Williams, "nid rhaid i'r garddwr ond peidio ymweld â'i ardd, a pheidio ei chwynnu, hi oresgynnir gan chwyn mewn ychydig wythnosau."

Felly,

"mae y cyfryw gynulliad yn fuddiol er mwyn edrych a gwyllo ar ôl bywydau ei gilydd, rhag i neb redeg i fywyd penrydd, a throi gras Duw i drythyllwch."

Nid enw heb arwyddocâd oedd yr hen enw am y Methodistaidd, sef, y "Trefnyddion Calfinaidd". Wrth bwysu rhan flaenllaw Williams yn adeiladwaith y fath drefn nid yw'n amhriodol ei gyfrif yn un o golofnau

cadarnaf yr adeilad Methodistaidd yng Nghymru.

Yr oedd pobl Dduw yn cyfrif i Williams.

Os ydych am wybod sut bobl oedd y Methodistaidd hyn, darllenwch farwnadau Williams. Cyfansoddodd dros 30 ohonynt.

Ynddynt cewch dystiolaeth i drafferthion y credinwyr gwan yn ogystal â'u rhagoriaethau. Gadewch imi ganolbwyntio ar hanes Margaret Lloyd, gwraig William Lloyd, "pregethwr yr Efengyl" pan gollodd ei mab deng mlwydd oed o'r frech goch. Mae Pantycelyn yn sôn am "arfaeth Duw", "treial chwerw", a "siomedigaeth ddofn danlyd" y digwyddiad. Eto i gyd gall Williams hefyd adrodd geiriau dychmygol y mab i'w dad:

"At fy Arglwydd 'r wyf fi'n edrych, lesu, lesu, ti dy hun  
All fy ngwneud mewn un munud yn  
Bach, y gwir hapusaf ddynt ..."

Ac i'w fam dywed Williams yn hyderus, "Angel yw, er gelwir ef yn *angau*", ac yna,

"Cofia, cofia, wraig hiraethlon,  
Nid digofaint yn dy Dduw,  
Ond rhyw gangen, er mai chwerw,  
O dragwyddol gariad yw ..."

Dyma brawf o *realiti* ymarferol diwinyddiaeth Williams a'i gyd-Fethodistaidd. Ffydd yn y ffau a'r ffwrnes a brofasant yn aml, ond megis Daniel a'i gyfeillion gynt, profasant Dduw yn ffyddlon i'w addewidion. Dysgwn ganddynt!

Pa fath o ddiwylliant a gynhyrchwyd gan argyhoeddiadau diwinyddol y Methodistaidd Calfinaidd?

Ni ellir gwadu mai cred yng ngeiriau'r Beibl fel geiriau Duw a roes fodolaeth i holl lafar Williams. Mewn un emyn cyfarwydd ceir hyn ganddo am y Beibl, "geiriau pur y nef"; mewn un arall, "cyfarwyddwr pur i'r nefoedd". Rhowch y ddau at ei gilydd ac fe gewch ddatguddiad Duw yn ddiogel a digon ar gyfer ffydd a buchedd, amser a thragwyddoldeb. Nid geiriau yn unig, cofier; ond grym hefyd. Grymsterau'r Ysbryd Glân yn goleuo, yn bywrau, yn galluogi, yn ceryddu, yn cysuro ac yn adeiladu'r credadun. Ymhlith yr holl effeithiau hyn y pennaf un oedd dyrchafu Crist fel gwrthrych cred, ymddiriedaeth, cariad ac ufudd-dod. Megis y dywedodd Williams am bregethu Dafydd Jones, Llangan, "Iesu'r *text* a Iesu'r bregeth, Iesu'r ddeddf, a Iesu'r ffydd", dyma ganolbwynt themâu Williams hefyd. Dyma, yn bennaf sy'n rhoi sail i honni bod Williams, Pantycelyn yn gawr ymhlith y cewri. Gwnawn yn fawr o'r gwaddol a adawodd.

*Eifion Evans, (Parch Ddr),  
Crosshands*

## "Gwybod pris popeth a gwerth dim byd!" (parhad)

### Diwedd Patriarchaeth

Yn wir dadleuodd y sylwebydd ffeministaidd *Glosswitch* bod dydd patriarchaeth ormesol ar ben. Erbyn hyn mae rhyddid rhyddfrydol y farchnad yn mynnu ein bod oll yn "batriarchiaid" mwyach, yn rheolwyr ar ein bywydau a'n ffawd ein hunain. Mae gan bob un ohonom berchnogaeth arnom ein hunain, a ni ei hunain sydd a'r hawl a'r rhyddid i ddiffinio'n hunain, i fasnachu ein hunain os ydym yn dewis yn ôl pris y farchnad, i dalu am nwyddau, am lety... am ryw.

Gan fod pris ariannol ar bopeth does dim dadl resymol y gellir ei dwyn i'w wrthwynebu, meddir. Os oes cydsynied, neu gytundeb i dalu am ryw neu trwy ryw, pa ddrwg allai ddod ohono?

### Dryswch rhesymol

Yn anorfod felly, ni ellir gwrthwynebu os oes landlord yn gofyn am ryw, pryd bynnag y dymunant hynny, fel tâl am lety. Wedi'r cyfan, yn ôl y model yma o fasnachu, mae pris "rhyw" a phris "llety"

yn nwyddau masnachol y gellir eu trafod a'u cyfnewid! Yn y cyfnewidiad masnachol hwn yr unig beth sydd ar goll yw'r weithred ffurfiol o drosglwyddo arian o un llaw i'r llall am werth y nwydd a ddarperir.

### Ac yn Seion ar y Sul?

I ninnau sy'n clodfori'n rhagflaenwyr Anghydfurfiol, ai mater o farn bersonol a rhyddid personol yw trefniadau masnachol o'r fath? A ydynt yn datgelu gwerthoedd dyrchafol neu'n ddiffaol? Yn rhoi anrhydedd ar berthynas pobl â'i gilydd neu'n dwyn rhyddid ac urddas oddi ar bobl fregus?

Fel y dywed yr hen ystrydeb, 'Dy ni'n gwybod pris popeth a gwerth dim byd! Oni ddengys y dryswch moesol hwn genhedlaeth ddrylliedig – ar goll, ar ddisberod, heb fugail, heb Dduw, heb obaith yn y byd.

Oni weddiwn ninnau dros ein Cymru ni, fel Amos gynt, "O Arglwydd Dduw, maddau! Sut y saif Jacob ac yntau mor fychan" (Amos 7:2)